

1. SEFYLLFA BRESENNOL

1.1 Deddfwriaeth a Statws Blaenoriaeth

Rhyngwladol	Cyfarwyddiaeth Cynefinoedd ^a (Atodiadau II & IV) Confensiwn Berne (Atodiad II) CITES (Atodiad A)
DU a Chymru	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Atodlen 5 & 6) Rheoliadau Cynefinoedd ^b (Atodlen 2) Deddf Diogelu Mamaliaid Gwyllt 1996 Blaenoriaeth CGB y DU Rhestr S74 Cymru ^c
Gwynedd	CGB Eryri

1.2 Sefyllfa yng Nghymru a thu hwnt

Roedd y dyfrgi^d unwaith yn gyffredin ac i'w weld drwy'r Deyrnas Gyfunol i gyd, fodd bynnag mae ei niferoedd wedi dirywio'n ddramatig ers yr 1950au hwyr, yn bennaf oherwydd llygredd plaladdwyr a cholled cynefin. Erbyn 1980, yr oedd y dyfrgi wedi diflannu'n llwyr yn y rhan fwyaf o Loegr a rhannau o Gymru a'r Alban. Wrth i blaladdwyr organo-clorin gael eu defnyddio lai a llai, ac i hela ddod i ben, mae'r dyfrgi yn dechrau adfywio'n raddol.

Ymddengys fod dyfrgwn yn gymharol gyffredin mewn afonydd drwy'r rhan fwyaf o Gymru erbyn hyn. Dengys canlyniadau o'r arolwg diweddaraf o ddyfrgwn yng Nghymru^e fod y nifer cyfan o arsylladau positif wedi cynyddu o 53% yn 1991 i 70% yn 2002. Dengys canlyniadau cymharol o Loegr gynnydd o 22% yn 1991 i 34% yn 2002. Mae'r dyfrgi'n gyffredin yn y cyfan o'r Alban, o'r bron. Er gwaethaf eu cynnydd o safbwynt dosbarthiad, mae'n amlwg mai cymharol isel yw'r niferoedd o ddyfrgwn sydd ar gael, ac felly maent yn dal i fod yn fregus drwy'r DU.



1.3 Sefyllfa yng Ngwynedd^f

Mae dyfrgwn wedi bod yn dychwelyd i lawer o afonydd yng Ngwynedd yn y blynyddoedd diweddar. Gwelir bod y cynnydd yn y nifer o ddyfrgwn a gaiff eu lladd ar y lôn yn arwydd o'r cynnydd a fu yn eu niferoedd mewn ardaloedd fel Pen Llŷn. Gwelir bod y poblogaethau mwyaf i'w cael yn afonydd mynydd Glaslyn, Gwyrfai a Seiont, ac yn naliadau Dyfi a Dysynni. Gwelir baw dyfrgwn yn aml ar yr Ogwen, Llifton, Gwyrfai, Seiont, Penrhos, Rhyd Ddu a'r Erch, ac yn ddiweddar ar y Soch. Gwyddys fod dyfrgwn yn defnyddio nifer o lynnoedd yn y sir, gan gynnwys nifer yn naliad y Dwyryd. Dangosodd arolygon diweddar hefyd fod dyfrgwn yn defnyddio cynefinoedd arfordirol yng Ngwynedd, yn enwedig Pen Llŷn ac Afon Menai.

^a Cyfarwyddiaeth Cyngor 92/43/EEC o 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol ac o ffawna a blodau gwyllt

^b Rheoliadau Cadwraeth Ewropeaidd (Cynefinoedd Naturiol) 1994

^c Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mynd yn Wyllt yng Nghymru - Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Fiolegol. Hawlfraint y Goron, 2003.

^d *Lutra lutra*

^e heb ei gyhoeddi eto

^f Yn y ddogfen hon, mae 'Gwynedd' yn cyfeirio at ardaloedd sydd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, heblaw ble y nodir fel arall

2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH HWN YNG NGWYNEDD⁹

- Dirywiad cyffredinol mewn poblogaethau pysgod o ganlyniad i orbysgota, llygredd a rheolaeth afonydd.
- Draenio gwlybtiroedd sy'n dileu ffynhonnell bwyd amffibiaidd a safleoedd magu posib.
- Diffyg safleoedd gorffwyso a cholled parhaus cysgod prysgoed a choed addas ar gyfer y safleoedd hyn, sefyllfa sy'n cael ei gwaethygu gan or-bori a rheolaeth anaddas ar lannau afonydd.
- Presenoldeb poblogaethau bach, gwasgaredig sy'n methu â chynnal colledion mewn damweiniau ffyrdd, boddi yn ystod llifogydd, a llygredd.
- Safleoedd mynych ar y ffordd o ble mae'r dyfrgwn yn cael eu lladd, a cholled enfawr hynny, yn enwedig pan fo unigolion sy'n bridio yn cael eu lladd
- Llygredd afonydd ac ati, yn cynnwys gofer amaethyddol gwasgarog o bryfladdwyr, nitradau, gwastraff fferm, llygredd ffynhonnell pwynt, megis carthffosiaeth, llygredd awyr yn arwain at asideiddio'r afonydd.
- Defnyddwyr hamdden yn amharu ar goridorau'r afonydd.
- O bosib - boddi damweiniol mewn cewyll cimwch.

3. CGR A CGC PERTHNA SOL YNG NGWYNEDD

Coedtir gwlyb, Coridorau trafndiaeth, Gwastadeddau lleidiog, Morfa Bori arfordirol a gorlifdirol, Morfa heli arfordirol, Llynnoedd, pyllau a ffosydd, Gwlyptiroedd, Coridorau afonydd

Llygoden Ddwr, Lampreiod, Eogiaid, Misglen berlog yn afon

4. CAMAU CYFREDOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Mae dyfrgwn yn nodwedd o ymgeisydd ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Gellir eu gweld hefyd mewn ardaloedd tirol ac arfordirol yng Ngwynedd y gellid eu dynodi'n Safleoedd Bywyd Gwylt, neu eu dynodi yn GNL, SoDGA, GNG, ymgeisydd ACA neu AGA. Mae dyfrgwn yn bresennol fel nodwedd cymhwyso (er nad y prif reswm dros ddethol y safle) yn Afon Eden - Cors Goch Trawsfynydd a ymgeisydd ACu Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn.
- Ble mae angen AEA's ar gyfer datblygiadau arfaethedig (e.e. cynlluniau adeiladu ffyrdd), dylai'r rhain gynnwys arolygon ynghylch rhywogaethau dan amddiffyniad gan gynnwys dyfrgwn. Ble gwelir eu bod yn bresennol, mae'n bosib y bydd angen mesurau lleddfu. Mae'r hefyd yn gwneud arolygon dyfrgwn fel rhan o asesiadau AEA ar gyfer holl weithiau mewnol.

4.2 Rheolaeth a Chynlluniau Gweithredu

- Mae prosiect mamaliaid glannau afon yn cael ei wneud drwy'r Grwp Mamaliad glannau afon Gogledd Orllewin Cymru gan y CG, AA, APCE, Menter Môn a'r Gymdeithas Byd Natr Gogledd Cymru a fydd yn cynnwys gwaith gwella cynefinoedd. Mae ardal peilot Gwynedd yn nalgylch Glaslyn, a dechreuwyd y gwaith yno yng ngwanwyn 2003, mae posibilrwydd i ymestyn y prosiect i ddalgylchoedd arall yn y dyfodol.
- Mae cynlluniau AA yn cynnwys ardaloedd penodol yng Ngwynedd ac yn cynnwys presgripsiynau / gweithredoedd rheolaeth fydd o fantais i ddyfrgwn yn ogystal â rhywogaethau glannau afon a thiroedd gwlyb a'u cynefinoedd.

⁹ Gweler hefyd CGCau cysylltiedig am ffactorau mwy cyffredinol sy'n effeithio ar gynefin y rhywogaeth hwn

- Mae cynlluniau creu a rheoli cynefinoedd (er enghraifft creu twmpathau boncyffion a gwaliau artiffisial, a ffensio estyniadau o goridorau afonydd) wedi profi'n llwyddiannus mewn sawl dalgylch afon, wedi eu cyllido yn aml gan gynlluniau grant amaeth-amgylcheddol, e.e. Tir Gofal. Mae partneriaeth Dyfrgwn yr afon Dwryd wedi gweithredu rhaglen o osod gwaliau ar hyd yr afon Dwryd. Gall gwaliau artiffisial hefyd gael eu creu gan yr AA fel rhan o'u rhaglen waith Amddiffyn rhag Gorlif yr AA. Mae'r AA hefyd yn gweithredu gwaith gwellhad cynefin fel rhan o brosiect Menter Pysgota Cynaliadwy Gwynedd o dan Amcan 1.
- Mae prosiect drwy'r DU o'r enw Dŵr i Fywyd Gwyllt (prosiect Dyfrgwn ac Afonydd cyn hyn) yn cael ei redeg gan Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, ac yn anelu i wneud gwaith cadwraeth mewn cynefinoedd glan afon a thiroedd gwlyb gyda chymunedau lleol. Mae rheolwr Cymru ar hyn o bryd, a bydd rheolwr prosiect gogledd Cymru yn ymuno ag ef yn y dyfodol agos.
- Mae Grŵp Llywio Dyfrgwn a Ffyrdd wedi ei sefydlu, sydd yn anelu at leihau marwolaethau ac anafiadau damweiniol dyfrgwn ar ffyrdd. Ceir arno gynrychiolaeth gan WAG, Awdurdodau Lleol, AA, CCGC, Dŵr i Fywyd Gwyllt, Prifysgol Bangor, a Chyswllt Bywyd Gwyllt yr Heddlu. Mae nifer o brif fannau damweiniau wedi eu nodi yng Ngwynedd a gwaith wedi dechrau (yn Chwefror 2003) ar leihau'r perygl i ddyfrgwn mewn rhai o'r manau yma.
- Cynhaliwyd diwrnod hyfforddi ar Ddyfrgwn a Ffyrdd a bywyd gwyllt arall yng Ngogledd Cymru ym Mehefin 2002.
- Mae'r dyfrgi yw un o'r rhywogaethau sy'n gymwys ar gyfer cyllideb o Gynllun Rhywogaeth Her Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

4.3 Arolwg, ymchwilio a monitro

- Mae'r prosiect mamaliaid glannau afon (Gweler 4.2 uchod) yn rhedeg arolygon ar ddyfrgwn, llygod dŵr a minc.
- Gwnaethpwyd yr arolwg cenedlaethol cyntaf ar ddyfrgwn yng Nghymru yn 1977/78, a chaiff ei ailadrodd bob chwech neu saith mlynedd, wedi ei drefnu gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent. Cynhaliwyd yr arolwg mwyaf diweddar yn 2002 (nid yw'r data ar gael eto).
- Hyfforddiant ar arwyddion dyfrgwn, adnabod cynefin a rheolaeth cynefin dyfrgwn wedi ei drefnu i staff y cyrff allweddol yn cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd, Ymddiriedolaeth Genedlaethola mentr Coedwigaeth.
- Mae data anafiadau ar y ffyrdd yn cael ei gasglu gan awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd a Dŵr i Fywyd Gwyllt ac wedi ei gynnwys yn y Gronfa Ddata Marwoldeb Ffyrdd i Ddyfrgwn sy'n cael ei weinyddu gan Grŵp Llywio Dyfrgwn a Ffyrdd Cymru. Cafwyd cynnig fod y gronfa ddata yn cael ei rhannu ymysg cyrff allweddol.
- Mae cyrff marw dyfrgwn yn cael eu casglu a'u gyrru am ddansoddiad post-mortem gan Brifysgol Cymru, Caerdydd.
- Mae Partneriaeth Dyfrgwn yr Afon Dwryd yn gwneud arolygon rheolaidd gyda gwirfoddolwyr Afon Dwryd, Afon Mawddach ac Afon Glaslyn. Hyfforddir gwirfoddolwyr mewn trefsur, mapio cynefin, rhywio, oeddrannu a statws atgenhedlol y dyfrgwn hynny sydd yn cael eu hanafu ar y ffyrdd. Yn ystod Hydref 2002 trefnodd y grŵp arolwg gwirfoddolwyr ar ddefnydd dyfrgwn o safleoedd arfordirol ym Mhen Llŷn.
- Mae Partneriaeth Dyfrgwn yr Afon Dwryd wedi bod yn cydweithio gyda Phrifysgol Cymru, Abertawe ar ymchwil i ymborth y dyfrgi.
- Yn ystod 2002 cynhaliwyd arolygon dyfrgwn yn fisol ar hyd yr afon Aber gan wirfoddolwyr a staff y Cyngor Gwynedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru Awdurdod Parc Cenedlaethol ac eraill. Mae ail ran y prosiect yma yn cynnwys dadansoddiad genetig y boblogaeth ddyfrgwn.

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. I sefydlu statws a dosbarthiad presennol dyfrgwn yng Ngwynedd.
2. I amddiffyn, cynnal a gwella poblogaethau dyfrgwn presennol a'u cynefin cysylltiedig
3. I leihau marwolaeth ddamweiniol dyfrgwn ar ffyrdd ac mewn afonydd.
4. I ddefnyddio'r dyfrgi fel rhywogaeth blaen i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd rheolaeth addas o'i gynefinoedd cysylltiedig.

6. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Camau	Partneriaid ^h
Polisi a Deddfwriaeth		
1	Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiadau mewn llecynnau sensitif yn cydfynd gyda chadwraeth dyfrgwn, yn enwedig y rheini sydd i'w cynnal ar lannau afon sy'n cynnwys gwaith ar bontydd neu ffosydd. TARGED/Amserlen: Cyfredol	CG, Partneriaid perthnasol
2	Cynnwys gweithrediadau cadwraeth dyfrgwn ymhob cynllun AA perthnasol yn y dyfodol TARGED/Amserlen: Cyfredol	AA
Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd		
3	Sicrhau nad yw cynlluniau gwella a chynnal a chadw ffyrdd cyfredol yn cael effaith negyddol ar oroesiad dyfrgwn drwy sicrhau ymarfer gorau a defnydd o fesurau lleddfu perthnasol. TARGED/Amserlen: Cyfredol	CG
4	Adnabod "mannau duon" anafu dyfrgwn ar y ffyrdd drwy'r Gronfa Ddata Marwolaeth Ddyfrgwn ar Ffyrrdd. Llunio a gweithredu rhalen waith, integreiddio gyda rhaglenni blynyddol cynnal a chadw priffyrdd a strwythurau CG, i gynnwys ffyrdd sirol a phriffyrdd, a gweithredu mesurau addas i leihau'r perygl o farwolaethau dyfrgwn yn y safleoedd hyn (e.e. silffoedd dyfrgwn, tanffyrdd). TARGED/Amserlen: Llunio cynllun gweithredu 5 mlynedd erbyn diwedd 2005	CG
5	Parhau ac ymestyn y prosiect mamaliaid glannau afon sydd yn digwydd ar hyn o bryd drwy gael cymorth grant ychwanegol. Fel rhan o Brosiect grantiau rheoli tir bioamrywiaeth a fyddai yn cynnwys grantiu ar gyfer rheolaeth addas ar gyfer Dyfrgwn TARGED: Ymestyn y prosiect o Laslyn i ddalgylchoedd allweddol eraill erbyn 2009	CG, partneriaid perthnasol
6	Fel rhan o'r prosiect mamaliaid glannau afon, targedu rheolaeth addas i ddyfrgwn i ddalgylchoedd Dwyfor/Dwyfach, Desach, Glaslyn, Soch, Llifton, Llyfni ac Ogwen, gan ystyried anghenion rhywogaethau CGB eraill yn arbennig y llygoden ddŵr. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG CCGC, AA,
7	Sicrhau fod yr anghenion bodolaeth a rheolaeth dyfrgwn yn cael eu hystyried o fewn unrhyw gynlluniau rheolaeth perthnasol neu gynlluniau grant (e.e. CRCCs, CGC, Tir Gofal, ASA) drwy ymgynghori cydweithio a sylwadu rhwng y partneriaid a'r AA. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	AA, CChG, CCGC, FC, CG
Cyngor		
8	Darparu cyngor a hyfforddiant ar faterion cadwraeth dyfrgwn i swyddogion rheoli datblygiad, peirianwyr priffyrdd, staff AA, CChG a CC a hyrwyddo digwyddiadau hyfforddi yn y dyfodol sydd wedi eu trefnu gan GLDL. TARGED/AMSERLEN: i'w benn/Cyfredol	CG, CC, CCGC, AA, CChG.
9	Darparu cyngor ar ddyfrgwn a rheolaeth cynefin, a lleihad mewn boddi dyfrgwn yn ddamweiniol mewn cewyll cimwch a lladd drwy ddamwain mewn trapiau minc, i bysgotwyr, clybiau pysgota, perchnogion a rheolwyr tir. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, Dŵr ar gyfer Bywyd Gwyllt

^h Y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma wedi ei nodi gyda ysgrifen dywyll, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

Arolwg, ymchwil a monitro		
10	Trefnu arolygon rheolaidd ar bresenoldeb a bridio dyfrgwn o fewn Gwynedd, yn cynnwys mewn cynefinoedd arfordirol ac aberol, ac mewn partneriaeth gyda grwpiau lleol a gwirfoddolwyr yn cynnwys cymdeithasau pysgota lleol a grwpiau Gofal Afon a'r rhai sy'n gwneud arolygon tebyg mewn ardaloedd PCE a mannau cyfagos. Sicrhau fod arolygon wedi eu integreiddio o fewn unrhyw raglenni arolwg yng Nghymru / Prydain TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG , Prosect Dyfrgwn Afon Dwyrdd Prosiect Dyfrgwn Afon Aber, CCD Dŵr ar gyfer Bywyd Gwyllt
11	Gwneud ymchwil mewn cyswllt gyda CGB APCE i adnabod ffactorau sydd yn cyfyngu ar ymlediad dyfrgwn o fewn Gwynedd, yn arbennig mewn cyswllt â llynnoedd yr ucheldir e.e. o gwmpas Blaenau Ffestiniog. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	Prosect Dyfrgwn Afon Dwyrdd , Prosiect Dyfrgwn Afon Aber CCGC, CEH, CG, Dŵr ar gyfer Bywyd Gwyllt, CPB
Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd		
12	Hybu cofnodi arsylltadau o ddyfrgwn gan y cyhoedd, i'w yrru at Dŵr i Fywyd Gwyllt i'w goladu drwy gyflwyno datganiadau gwasg nawr ac yn y man i bapurau newydd lleol. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG , AA, Dŵr ar gyfer Bywyd Gwyllt
13	Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch y rhywogaeth yma a'i gynefinoedd cysylltiedig drwy gyhoeddi erthyglau mewn cyhoeddiadau perthnasol a rhoddi cyflwyniadau llafar i grwpiau perthnasol (e.e. cyhoeddiadau a chyfarfodydd lleol yr Undebau Amaethyddol, Cymdeithasau pysgota, Grwpiau Gofal Afon). TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG , CCGC, AA, GCFBG, Cadw Cymru'n Daclus, Prosiect Afonydd glan

7 PARTNERIAID A CHYFLEON

7.1 Prif bartner ar gyfer CGR

Asiantaeth Amgylchedd Cymru (AA)

7.2 Partneriaid allweddol

Prosect Dyfrgwn Afon Aber

Prosect Dyfrgwn Afon Dwyrdd

Canolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH)

Coed Cymru (CC)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Adran Amgylchedd Cynllunio Cefn Gwlad AACChG)

Comisiwn Coedwigaeth (CCth)

Grwp Cyngori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GCFBG)

Cyngor Gwynedd (CG)

